



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

**Ymateb i adolygiad thematig Estyn o
gynnydd a chyrchfannau dysgwyr mewn
colegau arbenigol annibynnol**



ISBN digidol 978 1 4734 6682 1
© Hawlfraint y Goron Mehefin 2016
WG28054

Teitl yr adroddiad: Cynnydd a chyrchfannau dysgwyr mewn colegau arbenigol annibynnol

Manylion yr adroddiad

Comisiynwyd yr adolygiad gan Is-adran Cymorth i Ddysgwyr Cyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru i roi cyngor ar drefniadau mewn colegau arbenigol annibynnol (CAAau) ar gyfer mesur cynnydd dysgwyr a'r graddau y caiff dysgwyr eu paratoi ar gyfer pontio i addysg bellach neu gyflogaeth.

Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

Yn y rhan fwyaf o CAAau, caiff asesiad cyn mynediad dysgwyr ei ddiffinio'n dda gyda nodau ac amcanion clir. Mae CAAau yn rhoi pwyslais ar gael dealltwriaeth drylwyr o unrhyw rwystrau rhag dysgu a'r meysydd dysgu y mae dysgwyr yn eu mwynhau. Fodd bynnag, yn rhy aml, nid yw CAAau yn derbyn yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt cyn i'r dysgwr ddechrau.

Mae'r rhan fwyaf o CAAau yn defnyddio pob math o ddata i fesur cynnydd dysgwyr. Fodd bynnag, nid oes gan y mwyafrif o CAAau dargedau ar gyfer camau bach o ddysgu na ffocws clir ar gyrchfan hirdymor y dysgwr.

Mae'r rhan fwyaf o CAAau yn adolygu cynnydd dysgwyr yn wythnosol ac mae eu defnydd o ddata yn mynd y tu hwnt i gyflawni cymwysterau ac unedau credyd i gynnwys medrau ehangach a chynnydd dysgwyr yn erbyn targedau'r Cynllun Dysgu Unigol (CDU). Fodd bynnag, nid yw llawer o CAAau yn gwneud defnydd digonol o arbenigedd staff ac arbenigwyr i sefydlu llinell sylfaen o sgiliau ar gyfer pob dysgwr mewn meysydd fel cyfathrebu ac ymddygiad.

Mewn dau CAA, nid yw adolygiadau dysgwyr yn drylwyr ac mae'n anodd nodi neu fesur cynnydd. Ni all y CAAau hyn goladu digon o wybodaeth angenrheidiol i fodloni gofynion Llywodraeth Cymru chwaith.

Mae'r rhan fwyaf o CAAau yn cynllunio rhaglenni dysgu sydd wedi'u teilwra i fodloni anghenion dysgwyr unigol ac maent yn cynnwys cydbwysedd da rhwng gwaith a gweithgareddau hamdden.

Mae bron pob CAA yn adolygu eu rhaglenni dysgu bob tymor i wneud yn siŵr eu bod yn parhau'n berthnasol i'r dysgwr. Fodd bynnag, nid yw rhaglenni dysgu'n rhoi digon o ystyriaeth i gyrchfannau a ddymunir gan ddysgwyr na chyfleoedd cyflogaeth posibl yn y dyfodol.

Yn gyffredinol, nid yw CAAau yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng nifer y cymwysterau y mae dysgwr yn eu dilyn a datblygiad ei sgiliau cyffredinol. Mae llawer o CAAau yn dibynnu gormod ar gymwysterau fel ffordd o asesu a mesur cynnydd dysgwyr.

Mae pob CAA yn defnyddio gwybodaeth llinell sylfaen amrywiol yn dda i osod targedau llythrennedd a rhifedd ar CDUau ac mae'r rhan fwyaf yn dysgu sgiliau llythrennedd a rhifedd trwy gyd-destunau y gall y dysgwyr uniaethu â hwy'n hawdd. Fodd bynnag, mae rhai o'r targedau llythrennedd a rhifedd hyn yn rhy gyffredinol ac felly gallant fod yn anodd eu cyflawni; o ganlyniad, ni ellir mesur cynnydd yn eu herbyn yn hawdd. Mewn ambell goleg, mae gorddibyniaeth ar daflenni gwaith mewn dosbarthiadau sgiliau.

Mae pob CAA yn gwneud y gorau o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol ac maent yn annog dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb am feysydd sy'n berthnasol i fyw'n annibynnol. Fodd bynnag, nid yw CAAau yn gosod targedau, yn asesu cynnydd ac yn cofnodi tystiolaeth o'r dysgu hwn a allai eu helpu i werthuso effeithiolrwydd eu gwaith a bodloni gofynion Llywodraeth Cymru.

Mae llawer o ddysgwyr ar draws pob CAA yn elwa ar gyfleoedd profiad gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r broses o olrhain gwerth profiad gwaith wedi'i datblygu'n ddigonol, ac nid yw llawer o leoliadau gwaith yn ddigon penodol i'r cyrchfannau a ddymunir gan ddysgwyr.

Mae'r rhan fwyaf o CAAau yn cynllunio'n dda ar gyfer cyfnod pontio dysgwyr o'r coleg wedi i'r cyrchfannau a ffefrir ganddynt gael eu sefydlu. Fodd bynnag, mae trefniadau ar gyfer pontio o'r coleg wedi'u seilio'n rhy aml ar yr hyn sydd ar gael yn hytrach nag ar ble byddai'r dysgwr yn dymuno bod.

Nid oes gan oddeutu hanner y dysgwyr mewn CAAau nod cadarn o ran cyrchfan pan fyddant yn dechrau eu cwrs. Mae cyfathrebu rhwng rhanddeiliaid yn araf, ac mae oedi'n digwydd lle newidiwyd gweithiwr cymdeithasol neu ble mae dysgwyr o awdurdod lleol gwahanol i safle'r CAA.

Argymhellion 1–5

Dylai colegau arbenigol annibynnol:

A1 Gwneud yn siŵr bod yr holl asesiadau cyn mynediad yn berthnasol i holl anghenion amrywiol dysgwyr, gan gynnwys cyfathrebu ac ymddygiad

A2 Gwneud yn siŵr bod pob Cynllun Dysgu Unigol:

- yn cydnabod cyrchfan a ddymunir gan ddysgwyr
- yn nodi targedau mesuradwy tymor byr, tymor canolig a hirdymor yn gryno ac yn amlinellu cynlluniau i gyflawni'r targedau hyn

- yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

A3 Datblygu prosesau clir i bennu targedau, ac asesu, olrhain, monitro a gwerthuso cynnydd dysgwyr mewn sgiliau annibyniaeth

A4 Datblygu prosesau i fesur gwerth a deilliannau profiad gwaith.

A5 Lleihau'r ddibyniaeth ar daflenni gwaith generig i addysgu sgiliau llythrennedd a rhifedd

Ymateb:

Bydd Llywodraeth Cymru yn trafod canfyddiadau adolygiad Estyn gyda CAAau ac yn gweithio gyda hwy i sicrhau y bydd cyfres o gamau gweithredu cytunedig yn cael eu datblygu i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed. Dylid cynnwys unrhyw gamau gweithredu a ddatblygir ym mhrosesau hunanasesu CAAau.

Argymhellion 6 a 7

Dylai awdurdodau lleol:

A6 Cydlynu'r wybodaeth sy'n mynd gyda dysgwyr rhwng darparwyr ac mewn cyfnodau pontio

A7 Gwneud yn siŵr bod cynlluniau a phrosesau ar gyfer cyrchfannau dysgwyr y tu hwnt i'r CAA ar waith yn ddigon cynnar i gael canlyniad cadarnhaol a phontio didrafferth.

Ymateb:

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at awdurdodau lleol i dynnu sylw at yr adroddiad hwn ac yn gofyn iddynt ystyried yr argymhellion hyn fel rhan o'u trefniadau cynllunio pontio AAA.

Argymhelliad 8

Dylai Llywodraeth Cymru:

A8 Adolygu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani gan CAAau i wneud yn siŵr ei bod yn glir a phenodol ac yn cynnwys ffocws ar gynnydd dysgwyr, a'r gyrchfan a ddymunir gan y dysgwr, yn ogystal ag ennill cymwysterau

Ymateb:

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol, yn cynnwys CAAau, yn ystod blwyddyn academiaidd 2015/16 i wella eu

dealltwriaeth o'n gofynion gwybodaeth ar gyfer y broses ôl-16 a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo'n briodol i ddiwallu'r anghenion hyn. Mae hyn wedi cynnwys gwybodaeth gliriach am raglenni astudio ar gyfer unigolion, cynnydd dysgwyr yn unol â'u rhaglenni cytunedig a ffocws ar ddata cyrchfan. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod angen gwneud gwaith pellach.

O ganlyniad, yn ddiweddar, dechreuodd Llywodraeth Cymru adolygiad polisi o'r broses ar gyfer sicrhau lleoedd mewn colegau arbenigol annibynnol sy'n cynnwys gofynion gwybodaeth gan CAAau a'u dysgwyr. Amcan yr adolygiad hwn yw gwella polisi ac ymarfer, lleihau biwrocratiaeth a chryfhau rheolaethau yn y maes hwn. Disgwylir i'r adolygiad polisi ddod i ben yn fuan. Ymgynghorwyd â rhanddeiliaid allweddol fel rhan o'r adolygiad a rhennir y canfyddiadau â CAAau drwy Gymdeithas Genedlaethol y Colegau Arbenigol yng Nghymru cyn y gwneir unrhyw newidiadau i'r broses.

Mae Llywodraeth Cymru eisiau diwygio'r fframweithiau deddfwriaethol presennol hefyd ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig ac Anawsterau a/neu Anableddau Dysgu. Bydd canfyddiadau ein hadolygiad polisi ac adroddiad Estyn yn cyfrannu at ein hystyriaethau ar gyfer y Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg ynghyd â'n rhaglen ehangach ar gyfer diwygio polisi.

Manylion cyhoeddi

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ar wefan Estyn ar 26 Mai 2016.